

## CYNGOR GWYNEDD GWYNEDD COUNCIL

**Copi drafft o gofnodion 21<sup>ain</sup> cyfarfod Grŵp Cyswllt Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau, a gynhaliwyd ar y 5<sup>ed</sup> Hydref 2011 (gan ddechrau am 7pm) ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog.**

### **Yn bresennol:**

Y Cynghorydd

Caerwyn Roberts (CR)	Awdurdod Lleol – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (cadeirydd)
Alison Hargrave (AH)	Swyddog ACA PLAS
Dafydd Roberts (DR)	AP – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mike Parry (MP)	Twristiaeth
Bill Miller-Jones (BMJ)	Arall – Deifiwr a pherchennog cwch
Alan Gayden (AG)	Cyngor Cymuned – Dyffryn Ardudwy a Thal y Bont
Rowland Sharp (RS)	Arall
Rhys Jones (RJ)	AP – Cyngor Gwynedd
Glynne Roberts (GR)	Pysgota Masnachol – Cymdeithas Pysgotwyr Glannau Llŷn
David Roberts (DavR)	Awdurdod Lleol – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Y Cynghorydd	
Ray Quant (RQ)	Awdurdod Lleol – Ceredigion
Ian Roberts (IR)	Ffermio

(PLAS – Pen Llŷn a'r Sarnau)

(AP – Awdurdod Perthnasol)

### **Cyflwyniad**

Croesawodd CR bawb i'r cyfarfod. Cyhoeddodd gyda thristwch fod Alf Bowen wedi marw. Roedd Alf yn gyn harbwr feistr ac yn aelod o Bartneriaeth Aberdyfi a Grŵp Cyswllt PLAS. Mynegodd y grŵp ei gydymdeimlad â'r teulu a chafwyd munud o dawelwch i gofio Alf.

### **1. Ymddiheuriadau:**

Lucy Kay (LK)	AP – Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Bob Lowe (BL)	Hamdden
Mike Bowyer (MB)	Arall – Archeoleg
Bill Bracewell (BB)	Hamdden – Partneriaeth Aberdyfi

### **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

2.1 Derbyniwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod.

### **3. Materion yn codi**

3.1 Eitem 3.4 (AH i gylchredeg dyddiadau cyfarfodydd cyhoeddus y Cynllun Rheoli Traethlin cyn gynted ag y byddant ar gael): Anfonodd AH e-bost gyda'r wybodaeth hon ar yr 17<sup>eg</sup> Mai 2011. ***Cam gweithredu wedi'i gwblhau.***

3.2 Eitem 4.1 (AH i anfon copi o adroddiad morwellt Porth Dinllaen pan fydd ar gael): Anfonodd AH yr adroddiad dros yr e-bost ar y 18<sup>fed</sup> Ebrill 2011. ***Cam gweithredu wedi'i gwblhau.***

3.3 Eitem 5 (AH i ysgrifennu llythyr at y grŵp rhanddeiliaid Parthau Cadwraeth Morol yn gofyn a gaiff y Grŵp Cyswllt gymryd rhan yn y broses): Eglurodd AH fod grŵp llywio wedi cael ei sefydlu a bod nifer o grwpiau wedi cael eu creu i roi gyngor ar wahanol agweddau a helpu'r grŵp llywio i wneud penderfyniadau.

Y tri grŵp sydd wedi cael eu sefydlu yw:

- Grŵp cynghori technegol
- Grŵp cynghori cymdeithasol ac economaidd
- Grŵp ymgysylltu â rhanddeiliaid a dinasyddion

Roedd nifer o safleoedd wedi cael eu nodi ac mae'r grŵp llywio yn y broses o fireinio'r rhestr o safleoedd posibl erbyn hyn drwy ystyried materion cymdeithasol, economaidd ac ymarferol. Dylai hyn gael ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2011.

Cyn gynted ag y bydd y broses hon wedi cael ei chwblhau bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfnod ymgynghori 12 wythnos i geisio barn rhanddeiliaid ar y rhestr o safleoedd posibl. Dylai hyn ddigwydd rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2012.

Bydd y grŵp cynghori technegol a'r grŵp llywio yn mireinio'r rhestr safleoedd wedyn ac yn cynnal ail ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2012.

Rhwng mis Ionawr a mis Mai 2013 bydd y grŵp llywio yn argymhell y safleoedd arfaethedig i Weinidogion Cymru. Dilyniir hyn gan ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol terfynol ynglŷn â'r safleoedd terfynol yn haf 2013. Y disgwyl yw y caiff y safleoedd eu dynodi erbyn diwedd 2013.

Anfonwyd copi o gylchlythyr Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r uchod allan dros yr e-bost ac roedd copïau papur ar gael yn y cyfarfod.

3.4 Eitem 6 (AH i anfon y Cynlluniau Gweithredu Pynciol at y Grŵp Cyswllt dros yr e-bost a'r aelodau i anfon eu sylwadau at AH cyn cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt): Anfonwyd e-bost ar yr 17<sup>eg</sup> Mai 2011; nid oes sylwadau wedi dod i law. ***Cam gweithredu wedi'i gwblhau.***

3.5 Eitem 8 (AH i ymchwilio i'r sefyllfa o safbwynt ymbelydredd o Drawsffynydd): Eglurodd AH ei bod wedi cysylltu â Magnox, y cwmni sy'n gyfrifol am safle datgomiynu Trawsfynydd. Dyma'r pwyntiau y cafwyd ateb iddynt:

- Mae dŵr y llyn yn cael ei fonitro mewn dau fan: yng Ngogledd-ddwyrain y llyn gerllaw'r hen ganolfan ymwelwyr ac yng Ngogledd-orllewin y llyn gerllaw'r prif argae. Rydym hefyd yn cymryd samplau o afon Prysor, yn uwch i fyny na'r safle. Byddai unrhyw weithgarwch yma yn deillio o ddigwyddiadau y tu hwnt i'r safle megis Chernobyl, Fukushima ac ati, nid yn cael ei gynhyrchu o'r safle. Cymerir sampl ymhellach i lawr hefyd o Nant Gwylan.
- Caiff y canlyniadau monitro o'r llyn eu darparu i Asiantaeth yr Amgylchedd yn fisol fel rhan o'n datganiadau statudol o dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993, neu Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010 cyn bo hir. Mae copi o ganlyniadau Labordy Gorffennaf ynghlwm. Fodd bynnag, mae'r datganiadau eu hunain ar gael

drwy Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae adroddiad blynyddol ar ollyngiadau o'r safle ar gael hefyd.

- Mae'r defnyddiau gwastraff sy'n cael eu storio ar y safle mewn cyflwr solet, wedi'u mewngapsiweiddio, fel arfer ac maent yn annhebygol o fod yn ddigon symudol i achosi problem. Caiff defnyddiau eu storio mewn adeiladau wedi'u byndio a byddid yn delio ag unrhyw hylifau drwy system ddraenio weithredol y safle.
- Mae'r Fferm Bysgod yn Nhrawsfynydd yn cael ei rhedeg yn annibynnol ar y safle. Mae'r ddeorfa y tu allan i'r llyn ac yn defnyddio dŵr nant yn uwch i fynd na'r safle. Pan fydd y pysgod yn ddigon mawr cânt eu trosglwyddo i'r cewyll crog yn Llyn Trawsfynydd am gyfnod byr cyn iddynt gael eu gwerthu. Mae lefelau isel o weithgarwch safle'n cael eu canfod mewn pysgod sydd wedi bod yn y llyn am gyfnod sylweddol. Mae maint y gweithgarwch yn dibynnu ar ba mor hir y bu'r pysgod yn byw yn y llyn yn ogystal â'r rhywogaeth o bysgod, gan fod ganddynt arferion bwydo gwahanol. Mae'r canlyniadau i gyd o fewn y terfynau diogelwch yn hawdd ac rydym yn eu cyflwyno'n flynyddol i gyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid Safle. Maent yn cael eu cyhoeddi hefyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd/yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn eu hadroddiadau RIFE.

#### ***Cam gweithredu wedi'i gwblhau.***

#### ***Cam gweithredu: AH i anfon copi o'r e-bost a gafwyd oddi wrth Magnox at BMJ***

3.6 Eitem 8 (AH i ymchwilio i'r sefyllfa o ran gwagio biniau cyhoeddus yn Abermo): Eglurodd AH ei bod wedi trafod y mater gyda Chyngor Gwynedd ac wedi ateb RS yn uniongyrchol. Dros y gaeaf caiff y biniau stryd eu gwagio dair gwaith yr wythnos. Dros yr haf cânt eu gwagio ddwywaith y dydd (unwaith yn y bore ac unwaith yn y prynhawn), saith diwrnod yr wythnos. Mae rhaglen yr haf yn dechrau adeg y Pasg. Dechreuodd gwyliau'r Pasg yn gynt nag arfer yng Nghanolbarth Lloegr eleni gan olygu fod Abermo'n fwy prysur nag arfer. Fodd bynnag, dim ond tair gwaith yr wythnos y cafodd y biniau eu gwagio gan nad oedd rhaglen yr haf wedi cychwyn ar y pryd. Cyn gynted ag y gwnaed y Cyngor yn ymwybodol o'r broblem, cychwynwyd rhaglen yr haf. Nododd Cyngor Gwynedd hefyd iddynt dderbyn llythyr gan Gyngor Cymunedau Abermo ynglŷn â'r mater hwn ac roedd ateb wedi cael ei anfon i'r llythyr hwnnw. ***Cam gweithredu wedi'i gwblhau.***

3.7 Eitem 8 (AH i ymchwilio i'r broblem llifogydd yn Nyffryn Ardudwy a darparu pwynt cyswllt yn Asiantaeth yr Amgylchedd i AG): Siaradodd AH ag Asiantaeth yr Amgylchedd ac mae wedi ateb AG yn uniongyrchol. Mae nifer o ffactorau sy'n cyfrannu at y broblem yn cynnwys afon Ysgethin, dyfroedd wyneb a ffosydd. Nododd AH ei fod wedi rhoi manylion cyswllt Dafydd Vaughan Roberts o Asiantaeth yr Amgylchedd (01248 484018) i AG fel y gallai gael rhagor o wybodaeth e.e. pa waith cynnal a chadw sy'n cael ei wneud a beth yw'r perygl llifogydd ac ati. ***Cam gweithredu wedi'i gwblhau.***

## **4. Y newyddion diweddaraf gan y Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig**

### **4.1 Y diweddaraf am waith a wnaed Mawrth 2011 – Hydref 2011**

Amlinellodd AH y gwaith a oedd wedi cael ei gyflawni ers y cyfarfod diwethaf:

- Cyflwyniad – Abersoch Gynaliadwy
- 6 ymweliad ysgol (yn ychwanegol at yr ymweliadau 'Cool Seas')
- Nifer o sioeau – Sioe Nefyn, Sioe Caernarfon, Botanical beats a'r Wyl Bwyd Môr
- Digwyddiadau'r haf – taith dywys, diwrnodau hwyl ar y traeth a gweithdy celf bywyd gwyllt
- Cyfweliad teledu i Wedi 7

- Mae nifer o ddatganiadau i'r wasg wedi cael eu cylchredeg ac wedi arwain at nifer o erthyglau am yr Ardal Cadwraeth Arbennig mewn papurau newydd lleol
- Mae'r wefan wedi cael ei diwedddaru
- Cynhaliwyd nifer o sesiynau glanhau traethau
- Blaenoriaeth AH dros yr ychydig fisoedd diwethaf oedd y cynllun rheoli
- Mae Rhifyn 9 y cylchlythyr wedi cael ei ddrafftio a chaiff ei ddosbarthu'n fuan

Mae AH hefyd wedi bod yn gweithio ar sawl prosiect i helpu i roi cynllun rheoli'r Ardal Cadwraeth Arbennig ar waith:

#### **Prosiect Troi Llanw:**

- Mae'r prosiect wedi dod i ben yn swyddogol
- Mae'r adroddiad terfynol ar gael
- Mae'r poster i'r sticeri a gynhyrchwyd drwy'r gystadleuaeth yn barod erbyn hyn
- Anfonwyd nifer o ddatganiadau at y wasg ac ymddangosodd amryw o erthyglau mewn papurau newydd lleol
- Er bod y prosiect wedi dod i ben yn swyddogol, mae'r gwaith ei hun yn parhau. Cynhaliwyd nifer o sesiynau glanhau traethau gan ddefnyddio ein hoffer ni ac mae AH wedi rhoi cyhoeddusrwydd iddynt.

#### **Rheoli'r gwely morwellt ym Mhorth Dinllaen**

- Comisiynodd AH adroddiad i ymchwilio i'r defnydd a wneir o systemau mwrio amgen ym Mhorth Dinllaen (cafodd ei gylchredeg dros yr e-bost).
- Dangosai'r adroddiad fod tua 10m o amgylch pob safle mwrio a arolygwyd yn y morwellt yn cael ei sgwrio. Mae hyn yn golygu fod pob safle mwrio'n achosi colled o 314m<sup>2</sup> yn fras o forwellt. Mae oddeutu 90 o'r safleoedd hyn ym Mhorth Dinllaen, felly mae'n cyfateb i golli 10% yn fras o'r morwellt. Nid yw hyn yn cynnwys colledion o ganlyniad i angori. Mae'n wir y bu safleoedd mwrio ym Mhorth Dinllaen ers cyfnod hir a bod y morwellt yn dal yno ond nid yw mor iach ag yr arferai fod ac mae llai ohono yno. Mae'r clytiau hyn hefyd yn golygu fod y gwely'n cael ei ddarnio a gallai hynny achosi problem pe baem yn cael nifer o stormydd difrifol gan nad yw'r gwely mor sefydlog ag yr arferai fod.
- Nod y prosiect hwn yw ymchwilio i opsiynau rheoli posibl. Fel y dywedwyd o'r blaen, nid ydym am atal pobl rhag defnyddio'r ardal. Mae'r opsiynau rheoli posibl yn cynnwys parth dim angori a dim mwrio gwirfoddol. Pe bai hyn yn mynd yn ei flaen, hoffem weld defnyddwyr yr ardal hon yn penderfynu ble dylai'r parth hwn gael ei sefydlu. Posiblwydd arall fyddai treialu trefn fwrio sy'n gydnaws â morwellt.
- Y cam nesaf yw dechrau siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r ardal i weld beth yw eu barn nhw a sut y dylai'r ardal gael ei rheoli yn eu tyb nhw. Mae AH wedi sgwrsio'n fyr gyda Glynne Roberts am siarad â'r pysgotwyr lleol sy'n defnyddio'r ardal honno. Caiff hyn ei roi ar waith yn fuan. Bydd AH yn cysylltu â grwpiau defnyddwyr eraill yn yr ardal yn yr un ffordd. Os oes gennych unrhyw syniadau am bwy ddylai fod yn rhan o hyn, cofiwch roi gwybod i'r Swyddog.

***Cam gweithredu: Aelodau'r Grŵp Cyswllt i roi gwybod i AH am unrhyw grwpiau neu unigolion a ddylai fod â rhan yn y prosiect morwellt***

#### **Prosiect Crancod Menigog**

Mae rhywogaethau estron goresgynnol yn un o'r bygythiadau mwyaf i fioamrywiaeth forol. Un o'r rhywogaethau morol goresgynnol hyn yw'r cranc menigog. Mae eisoes wedi cael ei ganfod yn afon Dyfrdwy a chanfuwyd un cranc yn afon Conwy. Mae prosiect newydd wedi dechrau i fonitro'r cranc menigog i ganfod pa amodau amgylcheddol sydd eu hangen arno er mwyn iddo

gytrefu afon yn effeithiol. Gallai'r prosiect ein helpu hefyd i nodi pa afonydd sydd mewn perygl. Mae afon Mawddach wedi cael ei chynnwys yn y prosiect. Efallai hefyd y byddwn yn ehangu'r prosiect i gynnwys afonydd eraill yn Ardal Cadwraeth Arbennig PLAS. Gall y cranc menigog gael effaith arswydus, a'r pryder mwyaf yw ei fod yn gallu achosi problemau strwythurol gan ei fod yn tyrchu i dorlannau gan greu tyllau di-ben-draw nes i'r dorlan ddymchwel. Mae hefyd yn gallu croesi tir sych felly gall ymledu i afonydd cyfagos yn gymharol hawdd. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yn y prosiect neu os hoffent helpu, cysylltwch â'r Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig.

RS – ychwanegodd fod prosiect crancod menigog arall ar waith – prosiect cofnodi. Rhannodd daflen gyda gwybodaeth ar sut i adnabod y cranc menigog a sut mae rhoi gwybod eich bod wedi'i weld. I gael rhagor o wybodaeth ewch i [www.mittencrabs.org.uk](http://www.mittencrabs.org.uk).

MP – nododd fod Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain yn maglu mincod.

***Cam gweithredu: Aelodau'r Grŵp Cyswllt i roi gwybodaeth i'r Swyddog Ardal Cadwraeth Arbennig os ydynt yn gwybod am unrhyw un a hoffai fod yn rhan o'r prosiect neu os hoffent nhw eu hunain fod yn rhan ohono***

#### **Mapio Gweithgareddau yng Nghymru**

Mae ACA forol Sir Benfro wedi cynhyrchu system fapio ar-lein sy'n mapio nifer o bethau yn cynnwys gweithgareddau hamdden, dynodiadau cadwraeth, datblygiadau ac ati. Ar hyn o bryd Sir Benfro yw'r unig ardal sydd wedi mewnbynnu data. Efallai y byddwn yn dechrau mewnbynnu data am PLAS. Gallai hyn fod yn eithriadol o ddefnyddiol wrth ddelio â cheisiadau cynllunio ac ati ac wrth ystyried effeithiau cyfun. Byddai hefyd yn sail i'r cynllun rheoli ac yn helpu i benderfynu ar gamau rheoli. Mae'r wefan ar gael i'r cyhoedd - <http://rawg.no-ip.org/>.

RS – nododd fod angen gofal wrth fapio gweithgareddau. Atebodd AH mai dyma'r adeg i'r grŵp edrych ar y wefan a nodi unrhyw bryderon sydd ganddynt. Nid yw'r prosiect wedi dechrau eto.

***Cam gweithredu: Aelodau'r Grŵp Cyswllt i edrych ar wefan Mapio Gweithgareddau yng Nghymru a nodi unrhyw bryderon neu syniadau a'u hanfon at AH***

#### **Cyllido'r Ardal Cadwraeth Arbennig**

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau tan fis Mawrth 2012.

MP – Dywedodd y bu'n amhosibl cysylltu â Chyngor Gwynedd dros y misoedd diwethaf.

MP – Ychwanegodd fod stondin PLAS wedi dod yn rhan annatod o'r Wyl Bwyd Môr a Thir.

IR – Nododd fod pobl yn Aberdaron yn casglu sbwriel oddi ar y traeth o bryd i'w gilydd ac yn gadael y bagiau sbwriel ar y naill ochr a'r llall o'r traeth. Yn hanesyddol mae Cyngor Gwynedd wedi clirio'r bagiau ond nid yw hyn wedi digwydd yn ddiweddar. Awgrymodd CR fod AH yn cysylltu â Stephen Jones neu Medwyn Griffiths.

***Cam gweithredu: AH i gysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â chasglu sbwriel ar draeth Aberdaron***

## **5 Adolygiad y Cyngor Cefn Gwlad o reolaeth Ardaloedd Morol dan Warchodaeth**

Cyflwynodd AH grynoded a ddarparwyd gan Maggie Hatton-Ellis o'r Cyngor Cefn Gwlad.

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Cyngor gynnal Adolygiad Cynhwysfawr o Reolaeth Ardaloedd Morol dan Warchodaeth yng Nghymru.

I wneud y gwaith hwn cynhaliodd y Cyngor asesiad mewnol ac allanol.

Cyfres o gwestiynau oedd yr asesiadau allanol a anfonwyd at y Grwpiau Awdurdodau Perthnasol a'r Grwpiau Cyswllt (lle maent yn bodoli).

Wedyn ysgrifennwyd yr adroddiad gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr asesiadau mewnol ac allanol. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei gylchredeg gan wahodd sylwadau, a chyflwynwyd sylwadau erbyn 15<sup>fed</sup> Medi.

Hoffai'r tîm asesu ddiolch i'r grŵp cyswllt am gymryd rhan yn yr asesiad ac am y sylwadau pellach a ddaeth i law am yr argymhellion sy'n deillio o'r asesiad.

Caiff argymhellion yr adolygiad eu cyflwyno i fwrdd prosiect mewnol y Cyngor Cefn Gwlad ar 19<sup>eg</sup> Hydref a bydd y cyngor i Lywodraeth Cymru'n cael ei gyflwyno i Dîm mewnol y Cyfarwyddwyr ar 21<sup>ain</sup> Tachwedd. Os cytunir arnynt fe'u hanfonir at Lywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl wedi hynny.

Bydd argymhellion yr adolygiad yn canolbwyntio ar wella rheolaeth yr holl Ardaloedd Morol dan Warchodaeth ac ar fframwaith i sicrhau trefn reoli gyson ar draws pob dynodiad a math o ardal forol dan warchodaeth yng Nghymru. Ni fydd y drefn a awgrymir yn newid rôl na chyfrifoldebau unrhyw awdurdod perthnasol nac awdurdod cymwys sy'n ymwneud â rheoli ardaloedd morol dan warchodaeth.

MP – nododd ei fod yn poeni na châi gyfle i weld y fersiwn terfynol cyn iddo gael ei anfon at Lywodraeth Cymru fel argymhellion.

## **6 Cyflwyniad a thrafodaeth am gynllun amddiffynfeydd arfordirol Borth**

Rhoddodd RQ gyflwyniad ar gynllun amddiffynfeydd arfordirol Borth. Mae'r cynllun terfynol yn cynnwys dau forglawdd, dau rwyn ac un creigres yn y môr. Mae'r greigres yn y môr yn amddiffyniad arfordirol ac mae iddi hefyd y fantais o ddarparu ewyn môr. Mae'r cyflwyniad ar gael yn ogystal â erthygl newyddion ar y cynllun.

Dylai'r greigres fod wedi'i chwblhau erbyn 6<sup>ed</sup> Rhagfyr 2011.

RS – gofynnodd pryd bydd y tywod yn setlo ar y traeth. Atebodd RQ y bydd y setlo yn cael ei fonitro.

MP – nododd iddo gael profiad tebyg gyda'r marina ym Mhwlheli o ran modelu i raddfa. Roedd MP wedi cael gwybod fod cwmnïau erbyn hyn yn tueddu i ddefnyddio modelu cyfrifiadurol yn hytrach na modelu ymarferol.

BMJ – nododd fod ysgol yn Wrecsam yn defnyddio traeth Borth i astudio drifft y glannau. Nododd hefyd y bydd y defnydd newydd sydd wedi cael ei roi ar y traeth yn Borth (defnydd chwarel) yn gweithio i ffordd tua'r gogledd i Ynys Las drwy ddrifft y glannau.

BMJ – nododd yntau ei fod yn bryderus y byddai'r defnydd sydd wedi cael ei fewnforio o Norwy yn cael ei gario i fyny'r arfordir gan ddrifft y glannau. Nododd RQ mai'r clogfeini mawr sy'n ffurfio'r greigres yw'r defnydd sydd wedi dod o Norwy. Ychwanegodd yr amcangyfrifir y dylai'r greigres ddal i fod yn gyfan ymhen 100 mlynedd.

Gofynnodd nifer o aelodau am gopiâu o'r cyflwyniad. Gofynnodd AG am gopi papur.

***Cam gweithredu: AH i anfon y cyflwyniad at aelodau'r Grŵp Cyswllt dros yr e-bost, ac anfon copi papur at AG***

## **7 Cynllun Rheoli PLAS**

Cyfeiriodd AH at y cynlluniau gweithredu pynciol a drafodwyd mewn cyfarfod blaenorol. Fe'u hanfonwyd at yr aelodau dros yr e-bost ers y cyfarfod diwethaf, er mwyn iddynt wneud sylwadau arnynt. Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law. Eglurodd AH ei bod yn bosibl o hyd i'r aelodau gyflwyno sylwadau. Gofynnodd sawl aelod a oedd modd i'r cynlluniau gweithredu pynciol gael eu hanfon atynt eto.

Crynhodd AH y camau gweithredu a nodwyd yng nghyswllt pob cynllun gweithredu pynciol, fel a ganlyn:

Nid oes unrhyw gamau gweithredu o bwys o dan yr adran adnoddau anfyw. Mae'r pennawd hwn yn cwmpasu:

- Cloddio am agregau – dim gweithredu
- Chwilio am olew a nwy
- Echdynnu mwynau
- Tynnu dŵr
- Ynni adnewyddadwy morol

Mae'r nifer fach o gamau gweithredu yn gysylltiedig â'r cynlluniau gweithredu pynciol uchod yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth, monitro a darparu adroddiadau.

Mae tri chynllun o dan y pennawd porthladdoedd, harbyrau, marinas a llongau

Carthu – gwaith cyfalaf a chynnal a chadw – dim gweithredu

Porthladdoedd a harbyrau – gweithredu'n ymwneud â rhywogaethau estron

Angori a mwrio – gweithredu'n gysylltiedig â'r gwely morwell ym Morth Dinllaen

***Cam gweithredu: AH i ailanfon y cynlluniau gweithredu pynciol***

## **8 Unrhyw fater sy'n peri pryder neu sydd o ddiddordeb**

AG – mae Jim Maxwell, cadeirydd pwyllgor cymuned Harlech, am wybod a oes gan y Cyngor Cefn Gwlad fapiau o ble bydd llwybr yr arfordir yn mynd yn ardal Harlech a Dyffryn Ardudwy. Hoffai wybod hefyd beth fydd effaith llwybr yr arfordir. Mae Jim Maxwell wedi ysgrifennu at y Cyngor Cefn Gwlad am hyn. Gofynnodd AH a allai gael copi o'r llythyr a byddai'n ymchwilio i beth sydd wedi digwydd.

*Cam gweithredu – AG i anfon copi o lythyr Jim Maxwell at AH*

*Cam gweithredu – AH i ymchwilio i'r sefyllfa o ran llwybr yr arfordir yn Harlech a Dyffryn Ardudwy*

DR – mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cael cais cynllunio am Bont Briwet. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn y broses o adolygu'r model.

CR – gwrthodwyd cais i godi 8 tŷ fforddiadwy yn Nhalsarnau oherwydd TAN 15 (nodyn cyngor technegol).

## **9 Amser a dyddiad y cyfarfod nesaf**

Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf tua diwedd Mai, 7 – 9pm ym Mhlas Tan y Bwlch. Y dyddiad i'w gadarnhau.